S4C /

# Pennaeth Marchnata

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon

## Pam ymuno â S4C?

Mae S4C yn chwilio am Bennaeth Marchnata ysbrydoledig i arwain ar waith hyrwyddo, ymgysylltu a datblygu brand S4C ar adeg hollbwysig yn hanes y gwasanaeth wrth i ni weithredu ein strategaeth newydd, ***S4C - Mwy na Sianel Deledu.***

Mewn tirwedd ddarlledu gystadleuol, aml-blatfform, mae'r rôl yn gofyn am ddealltwriaeth ddofn o frand a hyrwyddo gyda'r angerdd am ymgysylltu gyda chynulleidfaoedd a chreu ymgyrchoedd sy'n dal sylw a denu gwylwyr newydd.

Yn S4C, rydyn ni'n angerddol am greu amgylchedd gwaith positif, egnïol a chynhwysol sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd craidd sy'n gofyn i aelodau staff fod:

Ar Dy Orau, Balch o S4C, Dathlu pawb, Cer Amdani.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno â S4C ar ddechrau pennod newydd yn ei hanes dan ofal Prif Weithredwr a Chadeirydd newydd. Bydd disgwyl i chi gyfrannu at lwyddiant ein strategaeth newydd bum mlynedd gan arwain a gweithredu cynllun marchnata newydd er mwyn helpu tyfu cynulleidfaoedd, codi proffil a gwella canfyddiad S4C mewn hinsawdd gystadleuol iawn.

Rydym yn chwilio am unigolyn sydd yn angerddol am gynnwys S4C ac sydd â gweledigaeth ddigidol arloesol i ymgysylltu a chreu argraff gyda chynulleidfaoedd newydd.

## Beth fyddwch chi'n ei wneud?

Gan adrodd i'r Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Marchnata, byddwch yn gyfrifol am arwain timau o unigolion creadigol sy'n meddu ar arbenigaethau amrywiol - tîm marchnata sy'n trefnu a chydlynu ymgyrchoedd hyrwyddo ar draws platfformau a thîm creadigol sy'n cynhyrchu asedau hyrwyddo ar gyfer S4C a'i ystod o ymgyrchoedd cynnwys - wedi'i ysbrydoli gan strategaeth hyrwyddo S4C.

Fel Pennaeth Marchnata, byddwch yn rhan allweddol o dîm o benaethiaid sy'n gyfrifol am hyrwyddo S4C a'i holl gynnwys - gan gyd-weithio'n agos gyda'r Pennaeth Cyfathrebu a'r Pennaeth Digidol i sicrhau ymgyrchoedd integredig llwyddiannus - yn ogystal â'r Pennaeth Ymchwil ar gyfer mewnwelediadau am ein cynulleidfaoedd.

Gyda chefnogaeth eich arweinwyr tîm, byddwch yn gyfrifol am weithredu cynllun marchnata uchelgeisiol er mwyn gwireddu amcanion ein strategaeth hyrwyddo gan ddatblygu arloesedd digidol yn y maes marchnata i sicrhau llwyddiant wrth ddenu cynulleidfaoedd newydd ac ehangu gwylio.

Mae hon yn rôl bwysig ac yn weladwy iawn o fewn a thu allan i'r sefydliad. Bydd gofyn i chi feithrin perthnasoedd cryf o fewn y sector gyda chwmnïau cynhyrchu a rhanddeiliaid cenedlaethol eraill. O fewn S4C, byddwch yn cydweithio'n agos gyda chyfeillion ar draws y cwmni gan wreiddio'n Cod Diwylliant ymhob rhan o'r gwaith ac ymddygiad gan hyrwyddo tegwch a chynhwysiant yn y gweithle.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR

Fel Pennaeth Marchnata, byddwch chi’n cynnig;

**Arweiniad Strategol**

- Datblygu cynllun marchnata blynyddol uchelgeisiol sy’n cefnogi Is-strategaeth Cyfathrebu a Marchnata S4C er mwyn denu cynulleidfa i gynnwys S4C ar draws ein platfformau a chynyddu ymwybyddiaeth o wasanaeth a brand S4C.
- Blaenoriaethau ein hymdrechion a’n hadnodd i sicrhau ein bod y cyflawni amcanion strategol S4C.
- Arwain gyda meddylfryd digidol sy’n annog arloesedd a gwthio ffiniau gan geisio atebion newydd mewn tirlun darlledu a defnyddwyr sy’n esblygu’n gyflym.
- Gweithio'n agos gydag arweinwyr amrywiol ar draws S4C i sicrhau bod ein hymgyrchoedd yn rai integredig a’n bod yn targedu'r gynulleidfa gywir gyda’r negeseuon cywir a'r dulliau marchnata mwyaf effeithlon er mwyn ehangu ein gwylio.
- Gosod ton a llais negeseuon y gwasanaeth a phortreadu gwerthoedd S4C.

**Deall a Datblygu Cynulleidfaoedd**

- Datblygu strategaethau a thactegau cynulleidfaoedd aml-blatfform sy'n seiliedig ar fewnwelediadau dwfn a dealltwriaeth o dueddiadau ac ymddygiadau i newid canfyddiadau ac ehangu ein cyrhaeddiad.
- Defnyddio data i lywio'r broses o wneud penderfyniadau am ddulliau ymgysylltu i sicrhau gwelliant parhaus.
- Dylanwadu systemau gweithredol er mwyn sicrhau fod timau o fewn yr adran yn cydweithio yn effeithiol.

**Gwreiddio Meddylfryd Ddigidol**

- Arwain gyda meddylfryd o weithredu mewn tirwedd ddigidol gan drawsnewid gweithgareddau marchnata S4C i gefnogi ein strategaeth newydd – Mwy Na Sianel Deledu gan roi pwyslais ar ddulliau digidol yn gyntaf i gyrraedd yr ystod ehangaf o gynulleidfaoedd.
- Herio a gwella prosesau mewnol gan archwilio’r defnydd o offer a sustemau digidol i wella a hwyluso llifoedd gwaith.

**Rheoli Adnodd**

- I reoli perthynas gyda darparwyr adnoddau allanol, gan graffu ar berfformiad ymgyrchoedd a sicrhau gwerth am arian.
- Atebol am gyllideb flynyddol Marchnata gan sicrhau bod y cynllun blynyddol yn cael ei gyflawni ar amser, yn effeithlon, o fewn y gyllideb ac yn sicrhau gwerth am arian.
- Adolygu a datblygu llifoedd gwaith yr adran i sicrhau effeithlonrwydd er mwyn gwireddu strategaeth S4C.
- Datblygu staff er mwyn sicrhau bod gan S4C y sgiliau cywir o fewn y timau marchnata a chreadigol i gyfleu ymgyrchoedd hyrwyddo effeithiol mewn marchnad gystadleuol.
- Sicrhau cydweithio hapus ac effeithiol rhwng timau adrannol ac ar draws y cwmni gan ddylanwadu ar systemau a phrosesau gweithredol.
- Bod yn bwynt cyswllt mewnol ac allanol ar unrhyw agwedd o’n hymdrechion marchnata gyda throsolwg o’n hymgyrchoedd hyrwyddo a’n hamcanion.

**Fel Rheolwr byddwch yn:**

- Sicrhau bod cyflawni ein strategaeth yn ganolog i waith y tîm;
- Mentora staff i ddatblygu eu sgiliau drwy roi cefnogaeth ac adborth cyson.

S4C /

- Arwain, rheoli ac ysgogi eich tîm, gan ddarparu cyfeiriad, amcanion clir ac adborth adeiladol ac ystyrlon mewn cyfarfodydd 1-1 rheolaidd.
- Cefnogi aelodau staff eich timau gan ddatblygu, ymgysylltu a grymuso staff.
- Cyfathrebu'n effeithiol a gweithio'n agos gyda'ch cydweithwyr ac eraill i sicrhau ein bod yn gwireddu ein hamcanion strategol gan weithredu'n effeithiol.
- Adolygu a monitro’r gwaith a gwirio ei ansawdd gan sicrhau targedau ac arweiniad clir gan sicrhau cefnogaeth bwrpasol er mwyn sicrhau safon a datblygiad perfformiad.
- Creu amgylchedd sy’n cefnogi perfformiad uchel, arloesedd, cydweithio, llesiant, datblygu, ymgysylltu a grymuso staff.
- Arwain a rheoli newid gwasanaeth a gwelliant parhaus.
- Sicrhau lles y staff dan eich goruchwyliaeth, yn cymryd cyngor pwrpasol gan eich rheolwr llinell neu yr Pobl a Diwylliant fel yr angen.
- Sicrhau diwylliant cadarnhaol a chreu amgylchedd sy’n cefnogi perfformiad uchel arloesedd, cydweithio, llesiant, datblygu, ymgysylltu a grymuso staff.
- Sicrhau bod y staff o dan eich goruchwyliaeth yn gweithio bob amser yn unol â pholisïau a gweithdrefnau S4C gan gynnwys Polisïau Iechyd a Diogelwch, Diogelu data, Cyllid, Rheoli Risg, Cyfle Cyfartal & Chynhwysiant, a materion cyflogaeth.
- Byw a hybu gwerthoedd S4C.
- Disgwylir ichi ymgymryd ag unrhyw waith neu gyfrifoldebau rhesymol eraill sy’n codi o bryd i’w gilydd a dirprwyo ar ran eich Rheolwr Llinell yn eu habsenoldeb neu fel bo’n ofynnol yn y meysydd sy’n gysylltiedig â’ch gwaith chi.

**Byddwch hefyd yn:**

- Ymwybodol o strategaeth newydd S4C – Mwy na Sianel Deledu, a sicrhau eich bod yn cymryd cyfrifoldeb personol i ddilyn ein holl bolisïau a gweithdrefnau yn ôl y gofyn sy’n cynnwys gweithio o fewn canllawiau Iechyd a diogelwch, amrywiaeth a chynhwysiant, gwarchod data, canllawiau ariannol ac yn y blaen.
- Cyfrannu mewn ffordd bositif tuag at ddiwylliant a chyflawni strategaeth S4C.
- Cyfrannu at a chefnogi’r defnydd o’r Gymraeg yn y gweithle.
- Cydweithio gyda’ch rheolwr llinell a bod yn rhagweithiol wrth reoli a datblygu eich perfformiad eich hun.
- Sicrhau eich bod yn gweithio mewn ffordd gadarnhaol, gydweithredol, draws-sefydliadol, sy’n datblygu gwasanaethau gwych i’n gwylwyr ar bob platfform ac yn sicrhau amgylchedd gwaith cadarnhaol, egnïol a chynhwysfawr sy’n trin pawb gyda pharch.

**Beth fyddwch chi’n ei gael?**

- Y cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn sefydliad sy’n gwerthfawrogi pobl.
- Gweithio mewn amgylchedd hyblyg o fewn un o’n swyddfeydd yng Nghymru – Caerfyrddin, Caernarfon neu Gaerdydd.
- Mae S4C yn ymrwymo i dwf personol ei gweithwyr, gan gynnig cyfleoedd hyfforddiant a datblygiad cynhwysfawr i wella sgiliau a hyrwyddo gyrfaoedd. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant mewnol, a rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus lle’n briodol.
- Mynediad at gyfleoedd unigryw yn y sector creadigol a chyfryngau gan gynnwys presenoldeb mewn digwyddiadau a rhagolwg rhaglenni, trafodaethau panel a diweddariadau mewnol.
- Mae gan weithwyr y cyfle unigryw i gyfrannu at hybu a chadw iaith a diwylliant Cymru drwy eu gwaith.
- Cynllun Pensiwn Personol Grŵp gyda 10% yn cael ei gyfrannu gan S4C.
- 26 diwrnod o wyliau yn cynyddu yn raddol hyd at 32 diwrnod ymhen 9 mlynedd.

Am sgwrs anffurfiol am y rôl cysylltwch a **pobl@s4c.cymru**.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR

Yn eich cais, sicrhewch eich bod yn amlygu'r sgiliau a'r profiad sydd gennych sy'n berthnasol i'r rôl a restrir yn y fanyleb bersonol isod ac sy'n unol â'n gwerthoedd craidd. Rhowch enghreifftiau clir sy'n dangos pam eich bod yn addas ar gyfer y swydd.

**Manyleb Personol**

| Nodwedd | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| **Cymraeg** | Sgiliau Cymraeg cryf ar lafar ac yn ysgrifenedig. | |
| **Cymwysterau** | Cymwysterau CIM neu debyg. | |
| **Profiad** | Profiad helaeth o weithredu ar lefel uwch o fewn swydd farchnata ddigidol a phrofiad marchnata wedi anelu at gynyddu ymwybyddiaeth cynulleidfa gan ddefnyddio technolegau a llwyfannau arloesol.<br><br>Arwain ar ddatblygu cynnwys digidol ac aml-blatfform, rheoli ymgyrchoedd defnyddwyr gan ddefnyddio o amrywiaeth o ddulliau a phlatfformau i ymgysylltu gyda chynulleidfaoedd.<br><br>Profiad o arwain prosiectau strategol a chreadigol llwyddiannus ar lefel uwch.<br><br>Profiad o arwain tîm a chydweithio yn ystod cyfnodau o drawsnewid o fewn sefydliad.<br><br>Profiad dwfn o arwain timau llwyddiannus sy'n cydweithio'n effeithlon gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol.<br><br>Profiad o ddatblygu strategaethau brand a marchnata arloesol ac effeithiol.<br><br>Profiad o ddatblygu a gweithredu ymgyrchoedd a chynlluniau marchnata digidol gyda ffocws cryf ar daith y gynulleidfa o ymwybyddiaeth o'r Brand i'r gynulleidfa. | |
| **Sgiliau a Gwybodaeth** | Profiad o weithio gydag a thrwy asiantaethau allanol, rheoli perthnasau dwfn a chreu rhwydwaith i gefnogi strategaeth. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Profiad o reoli a datblygu tîm yn effeithiol.<br><br>Gwybodaeth arbenigol o wahanol sianelu marchnata digidol ac arfer gorau.<br><br>Cefndir marchnata perfformiad gyda gwybodaeth ragorol am y tueddiadau, tactegau a'r technolegau diweddaraf.<br><br>Dylanwadwr o'r radd flaenaf gyda sgiliau cydweithio cryf a'r gallu i ddod â thimau gwahanol at ei gilydd i gyd-weithio ar un cynllun.<br><br>Meddyliwr dadansoddol gyda chraffter masnachol rhagorol gyda sgiliau rhagweld, cynllunio a rheoli cyllideb adran.<br><br>Gallu symud o feddwl strategol i weithredu ymarferol yn ddi-dor.<br><br>Ffocws cryf ar adnabod, datblygu a thracio cynulleidfaoedd.<br><br>Creu strategaethau unedig ar draws y sefydliad i gyflawni'r profiad gorau.<br><br>Y gallu i gyfathrebu ac i weithio yn effeithiol yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Angerdd am ddarlledu neu wybodaeth am y Sector Darlledu/Creadigol.<br><br>Adfocad brand sy'n cydnabod pwysigrwydd cyflawni brand S4C ar draws popeth a wnawn.<br><br>Dealltwriaeth ac ymrwymiad i gyflawni Strategaeth S4C. | |
| **Nodweddion Personol** | Arweinydd ysbrydoledig a chreadigol sy'n meddu ar sgiliau cyfathrebu gwych.<br><br>Datryswr problemau.<br><br>Dealltwriaeth ac ymrwymiad i Strategaeth a pholisi Amrywiaeth a chynhwysiant S4C. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Lefel uchel o uniondeb personol, a fynegir drwy ymddygiad.<br><br>Dangos Gwerthoedd ac Ymddygiadau sy'n cyd-fynd â gwerthoedd S4C.<br><br>Parodrwydd i weithio'n hyblyg. | |

**Manylion eraill**

**Lleoliad:** Caerfyrddin / Caerdydd / Caernarfon (o leiaf 3 diwrnod yn y swyddfa)

**Cyflog:** £63,457.00 y flwyddyn

**Cytundeb:** Parhaol

**Oriau gwaith:** 35.75 yr wythnos. Oherwydd natur y swydd, disgwylir hyblygrwydd, gan gynnwys gweithio tu allan i oriau swyddfa, ar rai penwythnosau a gwyliau banc.

**Cyfnod prawf:** 6 mis

**Gwyliau:** Yn ychwanegol i'r gwyliau banc statudol, bydd gennych hawl i 26 diwrnod o wyliau. Os ydych yn cael eich cyflogi yn rhan amser byddwch yn derbyn cyfran pro rata o'r gwyliau.

**Pensiwn:** Mae hawl gan staff cyflogedig ymuno â Chynllun Pensiwn Personol Grŵp yn ddarostyngedig i delerau unrhyw gynllun sydd mewn bodolaeth ac a ddiwygiwyd o dro i dro. Os byddwch yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Personol Grŵp, bydd S4C yn cyfrannu 10% o'ch cyflog sylfaenol i'r Cynllun. Disgwylir i chi gyfrannu 5%.

**Teithio:** Bydd teithio rhwng swyddfeydd, ar ymweliadau ac i ddigwyddiadau yn rhan o'r swydd, fel rheol o fewn y Deyrnas Unedig.

**Ceisiadau**

Dylid anfon ceisiadau erbyn 9yb 31 Mawrth 2026 i Pobl@s4c.cymru neu Pobl a Diwylliant, Canolfan S4C, Yr Egin, Caerfyrddin, SA31 3EQ.

**Dyddiad Cyfweliadau: 21 Ebrill 2026**

**Nid ydym yn derbyn CV.**

Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

**Defnyddio AI**

Os ydych chi'n dewis defnyddio AI neu offer tebyg, gwnewch yn siŵr bod eich ymatebion yn fanwl gywir, yn onest ac yn adlewyrchu'ch profiad a'ch geiriau eich hun. Gall ceisiadau nad ydynt yn wreiddiol neu sydd wedi'u cynhyrchu gan AI gael eu gwrthod.

Yn ystod y cyfweliad, ni chaniateir defnyddio AI nac offer recordio, oni bai bod hynny wedi'i gytuno ymlaen llaw ar sail hygyrchedd. Gall unrhyw dystiolaeth o ddefnydd heb ganiatâd arwain at dynnu'ch cais yn ôl.

**Cyfle Cyfartal ac Amrywiaeth**

Nid yw S4C yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, hil, lliw, anabledd, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, gweithwyr amser llawn neu ran-amser, crefydd, safbwynt gwleidyddol, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, defnydd ar iaith (heblaw lle bo'r gallu i gyfathrebu yn Gymraeg yn hanfodol i'r swydd) neu wahaniaeth amherthnasol arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd gadarnhaol.

Mae S4C yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli, gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Bydd egwyddorion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.

**Sgiliau Cymraeg**

Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon. Rydym yn falch o fod yn ddarlledwr Cymraeg ac rydym yn disgwyl i holl aelodau'r tîm werthfawrogi a pharchu'r iaith a'r diwylliant. Rydym yn cefnogi ac yn annog dysgu Cymraeg yn y gweithle, ac rydym yn chwilio am rywun sy'n agored i ddatblygu eu dealltwriaeth a'u gwerthfawrogiad o'r iaith fel rhan o'u taith gyda ni. Ni fydd cais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

hyderus o ran anabledd
CYFLOGWR